COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB DYDD MERCHER, 22 IONAWR 2020, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | RM James | B Jones | MJ Kearn |
| DRW Lewis | JE Lewis | JR McCarthy | D Patel |
| RL Penhale-Thomas | AA Pucella | KL Rowlands | B Sedgebeer |
| RMI Shaw | CE Smith | SG Smith | JC Spanswick |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | CA Webster | DBF White | PJ White |
| A Williams | AJ Williams | HM Williams | JE Williams |
| RE Young | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie, JC Radcliffe, MC Voisey, LM Walters a/ac KJ Watts

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Susan Cooper | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Richard Matthams | Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau |
| Adam Provoost | Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kevin Stephens | Cynorthwy-ydd Gwasanaethau Democataidd |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

387. DATGAN BUDDIANT

Datganwyd y buddiannau a ganlyn:

Datganodd y Cynghorydd R Shaw fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda - Adolygiad o Ardaloedd, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio 2019-20 oherwydd ei gysylltiad ag elusen leol sy'n cynnal Canolfan Gymuned William Trigg.

Datganodd y Cynghorydd JC Spanwick fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21 gan fod aelod o'i deulu yn elwa ar y cynllun.

Datganodd y Cynghorydd DBF White fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21 gan fod perthynas agos yn elwa ar y cynllun.

Datganodd y Cynghorydd HM Williams fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21 gan fod perthynas agos yn elwa ar y cynllun.

Datganodd y Cynghorydd JE Lewis fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda - Adolygiad o Ardaloedd, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio 2019-20 - am ei bod yn aelod o Ganolfan Gymuned Sarn.

Datganodd y Cynghorydd DRW Lewis fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda - Adolygiad o Ardaloedd, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio 2019-20 - am ei fod yn aelod o Ganolfan Gymuned Sarn.

Datganodd y Cynghorydd RM James fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21, gan fod aelod o'i deulu yn elwa ar y cynllun, a gadwodd y cyfarfod tra'r oedd yr eitem yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd HJ David fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda - Adolygiad o Ardaloedd, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio 2019-20 gan mai ef yw Cadeirydd Canolfan Gymuned Cefn Cribwr, sy'n cael ei defnyddio fel gorsaf bleidleisio. Gadawodd y cyfarfod tra'r oedd yr eitem yn cael ei hystyried.

Datganodd y Cynghorydd P Davies fuddiant a oedd yn rhagfarnu yn eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21 gan fod aelod o'i deulu yn elwa ar y cynllun. Datganodd y Cynghorydd P Davies fuddiant a oedd yn rhagfarnu yn eitem 10 ar yr agenda - Adolygiad o Ardaloedd, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio 2019-20 gan ei fod yn Gyfarwyddwr Ymddiriedolaeth Datblygu Caerau, lle ceir gorsaf bleidleisio. Gadawodd y Cynghorydd Davies y cyfarfod tra'r oedd yr eitemau'n cael eu trafod.

Cyhoeddodd y Cynghorydd CE Smith fuddiant personol yn eitem 8 ar yr agenda - Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21 gan fod aelod o'i deulu yn rhedeg busnes.

Datganodd y Cynghorydd MJ Kearn fuddiant personol yn eitem 10 ar yr agenda - Adolygiad o Ardaloedd, Mannau a Gorsafoedd Pleidleisio 2019-20 gan mai ef yw Cadeirydd Canolfan Gymuned Talbot a ddefnyddir fel gorsaf bleidleisio.

## 388. CYMERADWYO'R COFNODION

PENDERFYNWYD: Cymeradwyo bod cofnodion cyfarfod y Cyngor dyddiedig 18 Rhagfyr 2019 yn wir ac yn gywir.

## 389. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN:

### Y Maer

Cyhoeddodd y Maer ei fod wedi derbyn llythyr o werthfawrogiad a diolch oddi wrth Fanc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr am y cyfraniad ariannol a wnaed i'r Banc gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac am y bwyd a gyfrannwyd yn hael gan y staff a'r aelodau dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn y 10 mlynedd ers sefydlu Banc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr, mae'r Banc wedi darparu bwyd i oddeutu 50,000 o bobl. Bydd y Banc yn gwneud defnydd da o'r arian a'r rhoddion er mwyn bwydo pobl y fwrdeistref sirol sydd mewn argyfwng.

Diolchodd y Maer hefyd i'r 100 a mwy o bobl sy'n gwirfoddoli ym Manc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr. Mae pob un ohonynt yn gweithio'n galed iawn i frwydro yn erbyn tlodi bwyd yn y fwrdeistref sirol. Byddai'n bleser i'r Maer gael mynd i'r Cyfarfod Blynyddol heno, ac edrychai ymlaen at gael mynegi diolch a gwerthfawrogiad wyneb yn wyneb ar ran y Cyngor.

Cyhoeddodd y Maer hefyd fod enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dinasyddiaeth Blynyddol y Maer yn cau y dydd Gwener yr wythnos hon. Croesewir pob enwebiad a gellir lawrlwytho ffurflen gais o wefan y Cyngor neu wneud cais am ffurflen drwy gysylltu â Swyddfa'r Maer. Anogodd yr Aelodau i beidio â cholli cyfle i ddathlu cyflawniadau pobl a sefydliadau o fewn eu cymunedau.

Y Dirprwy Arweinydd

Cyhoeddodd y Dirprwy Arweinydd fod y Cyngor wedi ymuno â Chyngor Tref Porthcawl i dreialu dull newydd dyfeisgar o ddatrys problem ludiog gwm cnoi sy'n cael ei ollwng. Mae biniau 'Gollwng Gwm' arbennig yn cael eu gosod ar byst lamp ar hyd John Street, a phobl yn cael eu hannog i waredu eu gwm cnoi ynddynt yn lle ei ollwng ar y stryd a chreu staen hyll y mae'n anodd cael gwared arno. Gan fod y biniau wedi'u creu o gwm cnoi wedi'i ailgylchu, gellir eu tynnu i lawr a'u hailgylchu gyda'u cynnwys i greu amrywiaeth o gynnyrch, gan gynnwys biniau newydd ac esgidiau glaw. Dywedodd mai dyma gynllun diweddaraf y bartneriaeth â Chyngor Tref Porthcawl i ymdrin â sbwriel, a bydd yn golygu mai Porthcawl fydd un o'r trefi cyntaf yng Nghymru i gynnwys y biniau arloesol.

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â siopau cludfwyd lleol, ac mae tri bin arbennig newydd yn cael eu hychwanegu yn ardaloedd Promenâd y Gorllewin, John Street a Pharc Griffin er mwyn cefnogi ymdrechion i ailgylchu pecynnau bwyd brys. Roedd cyllid wedi dod i lawr oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac yn fuan byddai dwy ffynnon ddŵr yn cael eu gosod ar hyd glan y môr er mwyn annog pobl i ail-lenwi poteli ailddefnyddadwy am ddim yn hytrach na phrynu poteli plastig untro. Yr oedd yn gobeithio y byddai'r cynlluniau arloesol newydd hyn yn cefnogi ymdrechion i newid ymddygiad ac agweddau at wastraff, ac yn annog mwy o bobl i ailgylchu.

Aelod Cabinet Cymunedau

Hysbysodd yr Aelod Cabinet Cymunedau y Cyngor fod y Cyngor wedi gwneud amryw o ymrwymiadau i Gyfamod Cymunedol y Lluoedd Arfog, a'i fod wedi ennill gwobr i gydnabod hynny oddi drwy'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn a gynhelir gan y Weinyddiaeth Amddiffyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gefnogi cyn-aelodau ac aelodau presennol o'r lluoedd arfog, fel y dangoswyd yng nghynllun diweddar y Cyngor i warantu cyfweliad i gyn-filwyr. Canlyniad hyn oedd datblygu menter cwbl newydd a anelai i roi profiad ymarferol i bobl sy'n gadael y lluoedd arfog gael gweithio mewn amgylchedd dinesig. Bwriedir i'r fenter helpu cyn-filwyr lleol i oresgyn rhwystrau i gyflogaeth ddinesig, eu helpu i feithrin sgiliau trosglwyddadwy, ymaddasu i weithio mewn lleoliad y tu allan i'r fyddin, a lleihau'r risg o broblemau iechyd a llesiant ymhlith aelodau o gymuned y lluoedd arfog. Bydd y cynllun lleoliad gwaith yn creu manteision pellach gan y bydd yn helpu'r Cyngor hefyd i ganfod a datblygu detholiad ehangach o ymgeiswyr o ansawdd uchel ar gyfer rolau o fewn y Cyngor, o blith pobl na fyddai fel arall wedi ystyried gyrfa mewn llywodraeth leol. Dywedodd fod y Cyngor yn parhau i ymrwymo i gefnogi aelodau o'r gymuned filwrol, a gobeithiai y byddai'r Aelodau'n croesawu'r datblygiad diweddaraf hwn.

Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar

Cyhoeddodd Aelod y Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar, y bydd cartref gofal Tŷ Cwm Ogwr ym Mhantyrawel yn dychwelyd i reolaeth y Cyngor ar 31 Ionawr. Trosglwyddwyd y cartref i ddarparydd gofal annibynnol ym mis Ionawr 2018 yn rhan o'r cynlluniau i ailfodelu gofal cymdeithasol oedolion. Dywedodd ei bod hi wedi dod yn amlwg na fyddai'r darparydd yn gallu bodloni gofynion penodol o fewn y contract, ac y byddai'r cartref yn awr yn cael ei drosglwyddo'n ôl i'r Cyngor. Hysbysodd yr Aelodau nad oedd yr un o'r gofynion contract yn ymwneud â safonau gofal yn y cartref, sydd yn

parhau i fod yn uchel iawn, ac na fyddai'r trosglwyddo yn cael unrhyw effaith ar staff na phreswylwyr. Cafodd preswylwyr a'u teuluoedd wybodaeth gynhwysfawr drwy gydol y broses hon, er mwyn lleihau anghyfleustra a chynnal y safonau uchel y maent yn eu disgwyl bellach. Dywedodd fod Tŷ Cwm Ogwr hefyd wedi bod yn rhoi cefnogaeth i leihau'r pwysau ar Ysbyty Tywysoges Cymru, a bod y Cyngor hefyd wedi helpu i ryddhau gofod gwelyau gwerthfawr drwy sicrhau bod modd rhyddhau cleifion sydd wedi cael eu croesawu i'r cartref gofal preswyl. Cyhoeddodd fod y Cyngor yn parhau i fod wedi ymrwymo i ehangu'r fenter hon, ac i sicrhau y manteisir ar bob cyfle i sicrhau bod cynifer o welyau ar gael ag sy'n bosibl, a lleihau'r amser y bydd yn rhaid i bobl ei dreulio yn yr ysbyty. Roedd gwaith eisoes yn digwydd i ystyried opsiynau pellach ar gyfer Tŷ Cwm Ogwr, a byddai'n dod â newyddion pellach i'r Aelodau cyn gynted â phosibl.

<u>Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol</u>

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol fod 'Caffi Argyfwng' aml-asiantaeth wedi cael ei sefydlu yn y Zone yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, i gefnogi aelodau mwyaf bregus y gymuned a oedd yn aml yn ddigartref oherwydd eu problemau ac anhrefn eu ffordd o fyw. Cynhelir y Caffi Argyfwng ar foreau Gwener, ac mae'n rhoi cyfle i unigolion bregus gyrchu amrywiaeth eang o wasanaethau wedi'u dylunio i'w helpu i newid a gwella eu bywydau. Cynigir hynny mewn amgylchedd anfygythiol a chyfeillgar o safbwynt y trigolion bregus, sy'n seiliedig ar fodelau a argymhellwyd gan sefydliadau fel Shelter a modelau a dreialwyd yn llwyddiannus mewn ardaloedd fel Wrecsam. Dywedodd mai un o brif fanteision darparu ystod o wasanaethau mewn un lle oedd sicrhau bod modd i unigolyn bregus iawn ymgysylltu â'r holl wasanaethau sydd ar gael mewn un lleoliad.

<u>Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio</u>

Cyhoeddodd yr Aelod Cabinet Addysg ac Adfywio fod cynlluniau wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer cam nesaf ymdrechion y Cyngor i amddiffyn Porthcawl rhag llifogydd ac erydu arfordirol. O'u cymeradwyo, bydd Llywodraeth Cymru yn darparu 75% o'r cyllid, a bydd yn golygu bod mwy na £6m yn cael ei fuddsoddi yn yr ardal i amddiffyn 531 o gartrefi a 174 o fusnesau. Mae hyn yn dilyn y prosiect £3 miliwn i osod amddiffynfeydd môr Traeth y Dref, sydd wedi helpu i drawsnewid ardal y glannau ac amddiffyn 260 o gartrefi, busnesau ac adeiladau hanesyddol fel Pafiliwn y Grand. Yr oedd yn gobeithio cyflwyno mwy o newyddion i'r Aelodau'n fuan.

Cyhoeddodd hefyd y byddai 'sgwâr marchnad' newydd yn cael ei datgelu yn ardal ganolog Marchnad Dan Do Pen-y-bont ar Ogwr ddydd Llun nesaf. Yn rhan o brosiect parhaus i adfywio'r farchnad, mae ardal ganolog y farchnad yn cael ei neilltuo ar gyfer digwyddiadau arbenigol, adloniant i deuluoedd, cyfleusterau chwarae i blant a gweithgareddau eraill wedi'u dylunio i ddenu ymwelwyr a chefnogi masnach. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae cyfres o baneli darluniadol sy'n darparu gwybodaeth am hanes cyfoethog y farchnad wedi cael eu sefydlu i groesawu siopwyr, ac mae cloch y farchnad sy'n dyddio'n ôl i 1837 wedi cael ei hadleoli i'r brif fynedfa. Mae gwaith paratoadol yn mynd rhagddo i ddatblygu toiledau newydd fydd ar gael i'r cyhoedd yn y farchnad. Rhagwelwyd y byddai'r masnachwyr yn darparu'r rhain yn ddiweddarach yn y gwanwyn, ac y byddent yn hygyrch i gadeiriau olwyn ac yn cynnwys cyfleusterau newid cewyn. Yr oedd yn gobeithio cyflwyno manylion pellach am y gwaith hwn gerbron yr Aelodau, a byddai'r farchnad dan do yn cael ei hyrwyddo wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

<u>Y Prif Weithredwr</u>

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr fod arolwg newydd o staff mewnol wedi cael ei lansio yr wythnos hon, ac mai bwriad yr arolwg oedd canfod sut yr oedd staff yn teimlo ynghylch eu rolau o fewn y Cyngor, helpu i wella prosesau ac arferion mewnol, a chefnogi'r

awdurdod wrth iddo geisio bod yn llai gwastraffus ac yn fwy effeithlon. Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal hyd 1 Mawrth, ac mae'n gofyn i'r staff fynegi eu barn ar faterion sy'n cynnwys cyfleoedd i ddysgu a datblygu, llesiant yn y gweithle, rheoli, cyfathrebu a mwy. Yn yr arolwg blaenorol o staff yn 2018, cafwyd cipolwg gwerthfawr o'r modd y mae'r Cyngor yn ei weld ei hun fel sefydliad, ac mae hyn wedi'i gwneud hi'n bosibl i gyflwyno nifer o newidiadau a gwelliannau. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at benawdau arolwg staff 2018, a oedd wedi cael ei gwblhau gan fwy na 900 o staff. Defnyddiwyd yr adborth o'r arolwg yn sail ar gyfer nifer o gamau, fel newid i anfon negeseuon e-bost wythnosol i'r staff, a lansio cynllun awgrymiadau'r staff a oedd wedi arwain at archwilio a gweithredu amrywiaeth o syniadau. Yn sgil y ffocws ar lesiant y staff hefyd, cyflwynwyd clinigau gwirio iechyd hynod o boblogaidd, a gweithdai a drafodai ystod eang o faterion. Mae llawer o'r rhain wedi bod â ffocws neilltuol ar lesiant meddyliol y staff, gyda sesiynau'n cael eu cynnal ar ymwybyddiaeth ofalgar, rheoli straen, trechu iselder a mwy. Ar ôl cwblhau'r arolwg newydd a dadansoddi'r canlyniadau, dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr Aelodau y byddai'n cyflwyno mwy o wybodaeth am y datgeliadau newydd.

Estynnodd y Prif Weithredwr groeso swyddogol i Elizabeth Bradfield i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr  Dywedodd y byddai'r Aelodau eisoes wedi gweld Liz yn bresennol mewn llawer o gyfarfodydd pwyllgor fel gohebydd democratiaeth lleol, ond roedd hi'n bleser ganddo gael dweud y byddai'n dechrau ar ei gwaith yr wythnos hon fel swyddog cyfathrebu newydd yr awdurdod. Yr oedd yn siŵr y byddai'r Aelodau am ei llongyfarch am ei rôl newydd.

390. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod un o adeiladau tirnod newyddaf y Fwrdeistref wedi cael ei ddewis fel lleoliad i lansio strategaeth genedlaethol yn amlinellu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer dyfodol twristiaeth ledled Cymru.  Bydd y Prif Weinidog a'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth yn ymweld â'r Ganolfan Chwaraeon Dŵr newydd yn Rest Bay yfory i ddatgelu 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-2025' yn y ganolfan gwerth £1.5m a ariannwyd gan yr UE.

Cyhoeddodd yr Arweinydd hefyd y bu'n brofiad dirdynnol bod yn bresennol yn nigwyddiad Diwrnod Coffa'r Holocost eleni, a gynhaliwyd ddoe yn Theatr Sony yng Ngholeg Penybont.  Thema 2020 oedd 'Safwn Gyda'n Gilydd', ac roedd y digwyddiad yn atgoffa pawb sut mae llywodraethau hil-laddol ar hyd hanes wedi mynd ati'n fwriadol i chwalu cymdeithas drwy wthio grwpiau penodol i'r cyrion. Roedd y digwyddiad yn annog y rhai a oedd yn bresennol i gyd-sefyll â'u ffrindiau, eu cydweithwyr a'u cymdogion, ac i godi llais yn erbyn gorthrwm.  Yr oedd yn cynnwys anerchiad teimladwy a bythgofiadwy gan Dieu-Donne Ganza Gahizi, a oedd wedi goroesi Hil-laddiad 1994 yn erbyn y Tutsi yn Rwanda. Siaradodd am ei brofiadau personol fel bachgen 9 oed yn ffoi am ei fywyd ac yn colli 50 o aelodau o'i deulu, cyn cyflwyno neges o heddwch, gobaith a maddeuant. Yr oedd yn ddiolchgar i Ganza am deithio i'r Fwrdeistref Sirol i rannu ei stori a'i neges â phawb a oedd yn bresennol, a diolchodd i bawb fu'n gweithio i gynnal y digwyddiad.

391. Y DIWEDDARAF AM Y RHAGLEN GYFALAF - CHWARTER 3 2019-20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro adroddiad i gydymffurfio â gofyniad Cod Cyllid Cyfalaf Darbodus 2018 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; rhoddodd y newyddion diweddaraf am Raglen Gyfalaf 2019-20 ar 31 Rhagfyr 2019; gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 hyd 2028-29, ac i'r Cyngor nodi'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Eraill a ragamcanwyd ar gyfer 2019-20.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro fod Rheoliadau Awdurdod Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003, fel y cawsant eu diwygio, yn cynnwys darpariaethau manwl ar gyfer rheolaethau cyllid cyfalaf a chyfrifyddu, gan gynnwys y rheolau ar ddefnyddio derbyniadau cyfalaf, a'r hyn y dylid ei drin fel gwariant cyfalaf. Yn ogystal â hynny, mae'r Cyngor yn rheoli ei weithgareddau Rheoli Trysorlys a Chyfalaf yn unol â chanllawiau cysylltiedig. Yn ôl y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu Strategaeth Gyfalaf sy'n dangos bod yr awdurdod yn gwneud penderfyniadau ynghylch gwario a buddsoddi cyfalaf yn unol ag amcanion gwasanaethau, a'i fod yn rhoi ystyriaeth briodol i stiwardiaeth, sicrhau gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Cyngor, ar 20 Chwefror 2019, wedi cymeradwyo rhaglen gyfalaf, a gafodd ei diweddaru ddiwethaf ar 23 Hydref 2019. Dywedodd fod y rhaglen ddiwygiedig ar gyfer 2019-20 yn cynnwys cyfanswm o £33.700m. Defnyddir adnoddau'r Cyngor i dalu £15.057m o'r swm hwn, ac adnoddau allanol i dalu'r £18.643 sy'n weddill. Rhoddodd grynodeb o'r sefyllfa fesul Cyfarwyddiaeth, a'r rhagdybiaethau cyllido cyfredol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2019-20. Rhoddodd fanylion am y gwariant a ragamcanwyd ar gynlluniau unigol o fewn y rhaglen, o gymharu â'r gyllideb a oedd ar gael. Roedd nifer o gynlluniau wedi'u nodi'n gynlluniau yr oedd angen arian llithriant ar eu cyfer i'r blynyddoedd nesaf. Yn chwarter 3, cyfanswm yr arian llithriant a geisiwyd oedd £5.158 miliwn, yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Neuadd y Dref Maesteg (£1.6m)
- Hyb Cymunedol - Ysgol Gyfun Brynteg (£0.768m)
- Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn Ysgol Gynradd Cefn Cribwr (£0.387m)
- Llys y Gigfran (£0.442m)
- TAC Parciau / Pafiliynau / Canolfannau Cymuned (£0.66m)
- Asedau Anweithredol (£0.48m)

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod nifer o gynlluniau newydd wedi'u hariannu'n allanol ac incwm ychwanegol wedi cael eu cymeradwyo, a bod y rheiny wedi'u hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf:

- Hyb Cymunedol - Ysgol Gyfun Brynteg (£0.284m)
- Cymorth cyfalaf i weithredu ac ehangu casgliadau cartref ar wahân ar gyfer gwastraff cynnyrch hylendid amsugnol (£0.238m)
- Cronfa Gwella Eiddo Canol Trefi (£0.1m) a'r Grant Byw yng Nghanol y Dref (£0.5m)
- Cynllun Rheoli Risg Arfordirol - Porthcawl (£6.032m)
- Rhaglen Band B Ysgolion yr 21ain Ganrif
- Darpariaeth Gofal Plant Cyfrwng Cymraeg
- Grant Cynnal a Chadw Ysgolion
- Gwaith ar Anghenion Cymhleth a Meddygol mewn Ysgolion
- Benthyciad Cwm Llynfi

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro hefyd ar waith monitro Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill ar gyfer 2019-20. Bwriedir i'r Strategaeth Cyfalaf a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2019 roi trosolwg o'r modd y mae gwariant cyfalaf, cyllid cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, a rhoi trosolwg o'r modd y rheolir risg gysylltiedig a'r goblygiadau o ran cynaliadwyedd i'r dyfodol. Cafodd nifer o ddangosyddion darbodus eu cynnwys, a'u cymeradwyo gan y Cyngor. Yn unol â gofynion y Cod Darbodus, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid sefydlu gweithdrefnau i fonitro perfformiad yn erbyn yr holl

ddangosyddion darbodus sy'n edrych i'r dyfodol a'r gofyniad a nodwyd. Manylodd ar y dangosyddion gwirioneddol ar gyfer 2018-19, y dangosyddion a amcangyfrifwyd ar gyfer 2019-20 a nodwyd yn Strategaeth Cyfalaf y Cyngor, a'r dangosyddion a ragamcanwyd ar gyfer 2019-20 ar sail y Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig, sy'n dangos bod y Cyngor yn gweithredu'n unol â'r terfynau cymeradwy.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y Strategaeth Cyfalaf hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i fonitro buddsoddiadau rheoli nad ydynt yn gysylltiedig â'r trysorlys a rhwymedigaethau eraill hirdymor. Dywedodd fod gan y Cyngor bortffolio presennol o fuddsoddiadau sydd wedi'i seilio'n llwyr yn y Fwrdeistref Sirol, a hynny'n bennaf yn y sectorau swyddfa a diwydiannol. Caiff ffrydiau incwm eu gwasgaru rhwng buddsoddiadau swyddfa sengl ac aml-osod ym Mharc Gwyddoniaeth Pen-y-bont ar Ogwr, y stadau diwydiannol aml-osod a'r buddsoddiadau rhent tir rhydd-ddaliadol. Cyfanswm gwerth yr Eiddo Buddsoddi oedd £4.635 miliwn ar 31 Mawrth 2019. Dywedodd wrth y Cyngor fod ganddo nifer o Rwymedigaethau Hirdymor Eraill yn y Strategaeth Gyfalaf, ac nad oedd unrhyw fenthyciadau newydd wedi'u derbyn yn Chwarter 3.

Roedd aelod o'r Cyngor yn falch o nodi y byddai gwaith i gwblhau'r ddarpariaeth ADY yn cael ei ariannu yn Ysgol Gyfun Pencoed. Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Chymorth i Deuluoedd y Cyngor y byddai amgylchedd yr ysgol yn cael ei newid er mwyn galluogi dysgwyr â phroblemau symudedd i gyrchu'r holl gyfleusterau yn yr ysgol.

Mynegodd aelod o'r Cyngor bryder bod gwaith arolygu ychwanegol a gwaith i dynnu asbestos wedi cynyddu cost cynllun Neuadd y Dref Maesteg, ac y byddai angen i'r Cyngor dalu £1.9m yn ychwanegol, gan gynyddu cost y prosiect o £6.3m i £8.2m. Gofynnodd aelod a ddylai'r Cyngor dderbyn adroddiad ar y cynllun oherwydd y cynnydd mewn costau. Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor fod y Cabinet wedi derbyn adroddiad ar gyllideb ddiwygiedig y prosiect y diwrnod cynt. Dywedodd fod y penderfyniad i fwrw ymlaen i ailosod y to yn fodd i sicrhau bod gwaith ar Neuadd y Dref yn cael ei gyflawni'n briodol, ac y byddai'r adeilad yn dirnod yn unol â dymuniadau'r Cyngor, yn hytrach na bod y Cyngor yn mynd ati i drwsio darnau o'r to yn unig. Dywedodd ei bod hi'n bwysig rheoli'r risg llifogydd yn yr adeilad, ac nad oedd y Cyngor eisiau gorfod dychwelyd i drwsio'r to yn y dyfodol, Pwysleisiodd pa mor bwysig oedd buddsoddi yn Neuadd y Dref gan na chafwyd y buddsoddiad gan awdurdodau blaenorol. Rhannodd aelod o'r Cyngor bryderon ynghylch cost ychwanegol y prosiect, er ei fod yn croesawu'r buddsoddiad yn Neuadd y Dref, a fyddai o fudd i'r rhai sy'n defnyddio'r cyfleuster. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor fod y prosiect yn seiliedig ar ddarluniau cysyniadol pan gafodd ei gynnwys yn rhan o'r rhaglen gyfalaf, nes i'r tendrau ddod i law. Dywedodd fod ystod o astudiaethau ac arolygon dichonadwyedd wedi cael eu cynnal, a bod y prosiect yn nesáu at gam 4 Sefydliad Brenhinol y Penseiri o ran cwblhau'r dyluniad technegol a chostau. Ceir swm wrth gefn o £500k, ac mae'r ymarfer peirianneg gwerth yn cael ei gynnal ar y prosiect er mwyn ceisio gostwng cyfanswm cost y cynllun lle bo modd, heb i hynny amharu ar yr ailddatblygiad cyffredinol. Credai fod cost y prosiect yn realistig ac mai'r ystyriaeth bob tro oedd a ddylid ysgwyddo gwariant ymlaen llaw neu reoli'r prosiect fel contract dylunio ac adeiladu. Esboniodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n well buddsoddi i warchod yr adeilad eiconig drwy osod to newydd arno yn hytrach na thrwsio rhannau o'r to yn unig.

Credai aelod o'r Cyngor y dylid bod wedi cyflwyno gwybodaeth i'r Cyngor ynghylch costau'r prosiect a chanlyniadau'r arolygon, a bod cynnydd o 30% mewn costau yn ormodol, ac y dylai'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r prosiect hwn a chynlluniau cyfalaf eraill. Credai aelod o'r Cyngor hefyd fod angen sicrhau bod prosiectau adeiladu yn cynnig gwerth am arian.

Dywedodd yr Arweinydd wrth y Cyngor y gellid bod wedi trwsio'r to, ond bod manyleb newydd wedi cael ei llunio ar gyfer y prosiect i'w ailosod fel y gallai cenedlaethau'r dyfodol elwa ar yr adeilad, ac er mwyn i'r prosiect fod o'r ansawdd gorau. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Cyngor fod y dull o fynd ati i ariannu prosiectau cyfalaf wedi cael ei ystyried, yn yr ystyr y gellid creu llinell yn y gyllideb lle cynhelir ymarfer dichonadwyedd ymlaen llaw neu fwrw ymlaen â chontract dylunio ac adeiladu. Pe bai'r gwariant yn cael ei ysgwyddo ymlaen llaw, gallai'r Cyngor fod yn gwario ar brosiect na fyddai'n dwyn ffrwyth. Dywedodd yr Arweinydd y gallai'r Pwyllgor Archwilio edrych ar y broses o ariannu prosiectau cyfalaf. Dywedodd Aelod Cabinet y Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar wrth y Cyngor fod yr aelodau lleol wedi cael eu briffio ynghylch gwariant ar y prosiect.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y ffaith bod safle ar Heol Ewenni yn annatblygadwy gan fod hen waith cloddio arno. Gofynnodd a allai swyddogion gydweithio â Llywodraeth Cymru i ariannu gwaith adfer er mwyn datblygu'r safle. Dywedodd y Prif Weithredwr fod trafodaethau'n mynd rhagddynt â Llywodraeth Cymru ynghylch y safle, sydd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'n bosibl y gellid datblygu cyfleuster parcio a theithio, canolfan fenter a thai arno.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

- yn nodi Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2019-20 ar gyfer y cyfnod hyd 31 Rhagfyr 2019;
- yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig;
- yn nodi'r Dangosyddion Darbodus a'r Dangosyddion Eraill ar gyfer 2019-20.

392. RHEOLI'R TRYSORLYS - ADRODDIAD CHWARTER 3 2019-20

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Adran 151 Dros Dro adroddiad er mwyn cydymffurfio â gofyniad y Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (y Cod) gan Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i lunio Adroddiadau Rheoli Trysorlys Interim; adrodd ar Ddangosyddion Rheoli Trysorlys rhagamcanol 2019-20 a gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer gweithgareddau Rheoli Trysorlys yn y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd 31 Rhagfyr 2019.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro mai Rheoli Trysorlys yw'r rheolaeth ar lifoedd arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Cyngor yn agored i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith cyfraddau llog newidiol ar refeniw. Cynhelir gweithgareddau rheoli risg Trysorlys yn y Cyngor o fewn fframwaith Rheoli Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017 y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (Cod CIPFA). Yn ôl y cod, mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRhT) cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Arlingclose sy'n cynghori'r Cyngor ynghylch rheoli'r trysorlys.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod y farn ynghylch cyfraddau llog a gafwyd yn SRhT y Cyngor ar gyfer 2019-20 yn seiliedig ar farn swyddogion, ar sail rhagolygon gan Arlingclose. Pan luniwyd SRhT 2019-20 ym mis Ionawr 2019, oherwydd y cyfnod byr a ragwelwyd i ddod i gytundeb ymadael yn gysylltiedig â Brexit, a'r posibilrwydd o gyfnod estynedig o ansicrwydd yn sgil hynny, senario achos canolog Arlingclose oedd rhagweld 0.25% o gynnydd yng Nghyfradd y Banc yn ystod 2019-20 a fyddai'n codi cyfraddau llog swyddogol y DU i 1.00% erbyn mis Rhagfyr 2019. Dechreuodd Cyfradd y Banc y flwyddyn ariannol ar 0.75%, ac yn ôl y rhagolygon cyfredol bydd yn parhau ar y lefel hon ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro grynodeb o'r sefyllfa o ran buddsoddiadau a dyledion allanol ar 31 Rhagfyr 2019, sef bod y Cyngor yn dal £96.87m o fenthyciadau hirdymor allanol a £38.945m o fuddsoddiadau. Tynnodd sylw at y strategaeth fenthyca a'r alldro a ragfynegai y byddai angen i'r Cyngor fenthyca £16m yn 2019-20. Rhagwelwyd na fyddai angen unrhyw fenthyciadau hirdymor yn 2019-20, gan fod grantiau ychwanegol wedi'u derbyn yn chwarter olaf 2018-19, ac yn sgil newid i'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2019-20. Rhoddodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro grynodeb o'r strategaeth a'r alldro fuddsoddi gan esbonio mai'r prif amcanion yn ystod 2019-20 oedd cadw cyfalaf yn ddiogel; cynnal hylifedd cyllid fel bo modd cael gafael ar gyllid ar gyfer gwariant angenrheidiol, a sicrhau'r enillion ar fuddsoddiadau sy'n gymesur â lefelau diogelwch a hylifedd priodol. Balans buddsoddiadau ar 31 Rhagfyr 2019 oedd £38.945m Rhoddodd grynodeb o'r proffil buddsoddi o 1 Ebrill hyd 31 Rhagfyr 2019; y dangosydd Rheoli Trysorlys ar gyfer Prif Symiau a fuddsoddwyd am gyfnodau hwy na blwyddyn, a'r sefyllfa'n gysylltiedig â chyfraddau llog posibl ar fenthyciadau a buddsoddiadau

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a roddwyd ystyriaeth i fodelau buddsoddi amgen a ffafrir gan awdurdodau lleol eraill. Cadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod nifer o fentrau buddsoddi ar gael, ac mai ystyriaeth gyntaf y Cyngor bob tro fydd diogelu arian cyn sicrhau enillion, ond mae'r Cyngor yn archwilio gwahanol fentrau a modelau.

Cwestiynai aelod o'r Cyngor y strategaeth o fenthyca arian i awdurdodau lleol eraill. Dywedodd y Pennaeth Cyllid a Swyddog Adran 151 Dros Dro fod benthyciadau rhwng awdurdodau lleol yn cael eu cydnabod fel dull diogel o fuddsoddi.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:-

1. Yn cymeradwyo gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2019 hyd 31 Rhagfyr 2019;
2. Yn nodi'r Dangosyddion Rheoli Trysorlys a Materion Ariannol ar gyfer 2019-20 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli Trysorlys 2019-20.

393. CYNLLUN GOSTYNGIADAU'R DRETH GYNGOR 2020-21

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro adroddiad er mwyn rhoi gwybodaeth i'r Cyngor ynghylch gweithredu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21, ac er mwyn esbonio'r gofyniad i Gynghorau fabwysiadu cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor erbyn 31 Ionawr 2020, ynghyd â'r goblygiadau ariannu cysylltiedig.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn rhoi cymorth i rai ar incwm isel sydd yn gorfod talu'r Dreth Cyngor. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu cynllun sengl wedi'i ddiffinio'n genedlaethol, a'i nodi yn y rheoliadau, er mwyn darparu cymorth ar gyfer y Dreth Gyngor yng Nghymru. Mabwysiadodd y Cyngor Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2019-20 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig 2013, a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2020. Ar hyn o bryd, roedd 13,423 o aelwydydd yn derbyn Gostyngiad i'r Dreth Gyngor. Roedd 8,445 o'r rheiny o oed gwaith a 4,978 o oed pensiwn. O'r 13,423 o aelwydydd a dderbyniai Ostyngiadau'r Dreth Gyngor, roedd gan 10,017 ohonynt hawl i ostyngiad llwyr.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru wedi'i seilio ar reoliadau a wnaed o dan Atodlen 1B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y cafodd ei mewnosod gan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 2012). Roedd

Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2018 bellach wedi'u gosod ac yn cyflwyno diwygiadau er mwyn:

- Sicrhau bod partneriaethau sifil rhwng unigolion o rywiau gwahanol yn cael eu trin yn gydradd â phriodasau rhwng unigolion o rywiau gwahanol a'r un rhyw, a phartneriaethau sifil rhwng unigolion o'r un rhyw, o ganlyniad i Ddeddf Partneriaethau Sifil, Priodasau a Marwolaethau (Cofrestru ac ati) 2019;
- Darparu i gyflwyno hawl penodol, statudol i absenoldeb profedigaeth rhiant o ganlyniad i Ddeddf Profedigaeth Rhiant (Absenoldeb a Thâl) 2018.
- Newid cyfeiriadau at Reoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2006, i gyfeiriadau at Reoliadau Mewnfudo (Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016.
- Cynnwys darpariaeth nad yw nifer yr hawliau i breswylio (a sefydlwyd ar gyfer gwladolion yr Ardal Economaidd Ewropeaidd yn gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE) yn hawliau preswylio perthnasol i ddibenion sefydlu lle maent yn preswylio fel arfer.

Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro nad oedd y rheoliadau newydd yn cynnwys unrhyw newidiadau o bwys i'r cynllun cyfredol o safbwynt yr hawlwyr, a bod hawlwyr cymwys yn dal i allu ymgeisio am uchafswm o 100% o gymorth. Esboniodd fod yr ychydig o ddisgresiwn a roddwyd i'r Cyngor, sef cymhwyso elfennau dewisol a oedd yn fwy hael na'r cynllun cenedlaethol fel a ganlyn:-

- Y gallu i gynyddu'r cyfnod estynedig safonol o 4 wythnos o ostyngiad a roddir i unigolion ar ôl iddynt ddychwelyd i'r gwaith (os ydynt wedi bod yn derbyn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a fydd yn dod i ben o ganlyniad i ddychwelyd i'r gwaith);
- Disgresiwn i gynyddu swm y Pensiynau Anabledd Rhyfel a'r Pensiynau Gweddw Rhyfel sydd i'w ddiystyru wrth gyfrifo incwm yr hawlydd; a'r
- Gallu i ôl-ddyddio cais am Ostyngiad i'r Dreth Gyngor yn gysylltiedig â hawliadau hwyr cyn y cyfnod safonol o dri mis cyn yr hawliad.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor waeth a yw'n cymhwyso unrhyw elfennau disgresiwn ai peidio. Os na fydd y Cyngor yn creu Cynllun, bydd cynllun diofyn yn berthnasol. Ni chaiff y Cyngor ond arfer disgresiwn os yw'n creu ei gynllun ei hun o dan y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro fod ymgynghoriad wedi'i gynnal ar y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig yn 2016, a bod canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw wedi'u cynnwys yn adroddiad y Pennaeth Cyllid i'r Cyngor ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ar 11 Ionawr 2017. Gan mai'r cynnig oedd peidio newid yr elfennau disgresiwn, nid oedd ymarfer ymgynghori pellach wedi cael ei gynnal. Cynigiwyd y dylid cadw'r elfennau disgresiwn fel a ganlyn:

- Cadw'r cyfnod talu estynedig yn unol â'r safon ofynnol o 4 wythnos.

- Diystyru Pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddw Rhyfel yn llwyr wrth gyfrifo'r hawl i dderbyn Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Amcangyfrifir mai cost y cynnig hwn o fewn y flwyddyn ariannol fydd £11,100.

- Cadw'r drefn ôl-ddyddio yn unol â'r safon ofynnol o 3 mis.

Adroddodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro mai cyfanswm amcangyfrifedig y tri chynnig i'r Cyngor yw £11,100 ar gyfer 2020-21. Dywedodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro wrth y Cyngor fod yn rhaid iddo ystyried a ddylid disodli neu ddiwygio ei gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a'i bod yn rheidrwydd arno i greu cynllun yn ôl gofynion y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig. Mae'r rhwymedigaeth yn ddyletswydd statudol ac yn berthnasol hyd yn oed os yw'r Cyngor yn dewis peidio cymhwyso unrhyw elfennau disgresiwn sydd ar gael iddo. Dywedodd mai'r ymagwedd a argymhellwyd i'r Cyngor o ran yr elfennau disgresiwn sydd ar gael yw cymhwyso'r argymhellion yn Nhabl 1, ym mharagraff 4.23 yr adroddiad. Nid oes unrhyw gyllid ychwanegol i bontio unrhyw fwlch, a bydd disgwyl i bob awdurdod ariannu unrhyw ddiffyg.

Dywedodd dy Pennaeth Cyllid Dros Dro ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu cynllun erbyn 31 Ionawr 2020 o dan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, waeth a yw'n dewis cymhwyso unrhyw elfennau disgresiwn ai peidio. Os na fydd y Cyngor yn creu cynllun, bydd cynllun diofyn yn berthnasol o dan Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013. Hysbysodd y Pennaeth Cyllid Dros Dro y Cyngor ynghylch goblygiadau ariannol y cynllun, sef bod Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2020-21 yn dangos bod y swm a ddarparwyd ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ledled Cymru ar yr un lefel â 2019-20. Mae setliad dros dro'r Cyngor oddi wrth Lywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 yn cynnwys £13.184 miliwn i ariannu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sydd £104,000 yn fwy na'r £13.080 miliwn a gafwyd yn 2019-20; nid yw'r swm yn cymryd i ystyriaeth unrhyw gynnydd yn nhaliadau'r dreth gyngor, ond fe'i dosberthir yn seiliedig ar wariant ar gynlluniau gostyngiadau'r dreth gyngor y blynyddoedd cynt, ac mae'n annhebygol o newid yn y setliad terfynol. Ar sail y llwyth achosion cyfredol, amcangyfrifir mai cost y cynllun ar gyfer 2020-21 yw oddeutu £15.3 miliwn (gan gynnwys cost yr elfennau disgresiwn), sydd £2.116 miliwn yn fwy na'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru. Y gyllideb arfaethedig gyfredol ar gyfer 2020-21 yw £15.254 miliwn, sy'n cynnwys cyllid ychwanegol i dalu am y cynnydd arfaethedig i'r dreth gyngor yn y SATC. Er bod hyn yn cael ei ystyried yn ddigonol i fodloni'r galw ar hyn o bryd, bwriedir parhau i adolygu'r sefyllfa dros gyfnod y SATC.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor:

1. Yn nodi Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a rheoliadau diwygio 2014 a 2020.

2. Yn mabwysiadu Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor 2020-21, fel y'i nodir ym mharagraff 4.18 i 4.23 yr adroddiad.

394. ADRODDIAD YMGYNGHORI'R STRATEGAETH A FFAFRIR AR GYFER Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu ar Adroddiad Ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl), i'r Cyngor ei ystyried a'i gefnogi.

Adroddodd fod Rheoliad 15 yn Rheoliadau'r CDLl yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei gynigion cyn adneuo (y Strategaeth a Ffefrir) i'r cyhoedd gael eu harchwilio ac ymgynghori arnynt cyn penderfynu ar gynnwys ei CDLl ar gyfer Adneuo. Dywedodd fod y cyfnod ymgynghori statudol ar y Strategaeth a Ffefrir wedi cael ei chynnal o 30 Medi 2019 hyd 8 Tachwedd 2019, a bod cyfanswm o 70 o sylwadau ffurfiol wedi dod i law. Wrth baratoi am Gam Adneuo'r CDLl, mae'n rhaid i'r Cyngor ddrafftio Adroddiad Ymgynghori cychwynnol i'w gyhoeddi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol yn dilyn yr ymgynghoriad cyn-adneuo, o dan Reoliad CDLl 16A. Dywedodd wrth y Cyngor fod Adroddiad Ymgynghori wedi cael ei lunio yn amlinellu sut yr oedd y Cyngor wedi

cynnwys ac ymgynghori â'r cyhoedd ar y Strategaeth a Ffefrir ei hun. Dywedodd fod yr Adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd ynghylch y gwaith o baratoi'r cynllun, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, cyn amlinellu'r cyrff penodol a gymerodd ran, a chrynhoi'r prif faterion a godwyd a nodi pa ymateb a gafwyd/a geir i'r sylwadau. Roedd yr Adroddiad yn cynnwys esbonio'n fanwl sut y byddai'r cyfnod ymgynghori allweddol hwn yn dylanwadu ar ddatblygiad y CDLl Adneuo.

Adroddodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu fod nifer o ddulliau ymgynghori wedi cael eu defnyddio er mwyn sicrhau ymgynghoriad a chyfranogiad effeithlon ac effeithiol, yn unol â'r Cynllun Cynnwys Cymunedau. Dywedodd nad oedd bwriad i'r Adroddiad Ymgynghori fod yn adroddiad cynhwysfawr ar bob sylw a gafwyd, ond ei fod yn hytrach yn grynodeb o'r prif faterion a godwyd mewn ymateb i'r cwestiynau penodol ar y ffurflen gais. Roedd nifer sylweddol o'r sylwadau hefyd yn canolbwyntio ar safleoedd penodol, ond nid oedd yr Adroddiad yn gwneud unrhyw ymgais i werthuso holl rinweddau'r darpar safleoedd. Dywedodd y byddai'r holl ddarpar safleoedd yn cael eu gwerthuso yn rhan o'r Fethodoleg Asesu Darpar Safleoedd, a gynhelir ar wahân i'r Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir. Dywedodd wrth y Cyngor fod yr Adroddiad Ymgynghori wedi'i drefnu i gyd-fynd â phob cwestiwn yn yr ymgynghoriad, ac yn nodi'r prif bwyntiau cyfatebol a gafwyd a manylion ymatebion dilynol y Cyngor. Mae'r Adroddiad Ymgynghori yn rhoi trosolwg thematig manwl o'r prif sylwadau a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr.

Dywedodd yr Uwch Swyddog Cynllunio wrth y Cyngor fod y diwydiant datblygu wedi rhoi pwysau ar yr Adran Cynllunio i ryddhau safleoedd maes glas i'w datblygu, ond bod yr Adran wedi gwrthateb hynny, gyda chefnogaeth adroddiadau Arolygwyr. Cymeradwyodd aelod o'r Cyngor y modd yr oedd yr Adran Gynllunio wedi gwrthateb datblygiadau ar safleoedd maes glaw, a bod angen datblygiadau o ansawdd da yn y Fwrdeistref Sirol.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a oedd yr Adran Gynllunio yn sicrhau bod datblygiadau yn y dyfodol yn hygyrch i bobl ag anableddau. Hysbysodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu y Cyngor fod yr Adran yn cydweithio â Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod datblygiadau'n hygyrch i bawb, ac y byddai hyn wedi'i gynnwys yn y CDLl.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor am sicrwydd y ceid datrysiad i'r groesfan reilffordd fel bo modd datblygu i'r dwyrain o Bencoed. Hysbysodd y Rheolwr Cynllunio Datblygu y Cyngor y bydd y gwaharddiad ar ddatblygu yn parhau, ond pan fyddai canfyddiadau'r asesiad yn hysbys, byddai adroddiad yn cael ei lunio arnynt i'r Aelodau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Bod y Cyngor yn cymeradwyo cynnwys yr adroddiad ac y gofynnir am gymeradwyaeth y Cyngor cyn cyhoeddi'r Cynllun Adneuo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

395. <u>ADOLYGIAD O ARDALOEDD, MANNAU A GORSAFOEDD PLEIDLEISIO 2019-2020</u>

Adroddodd y Prif Weithredwr ar ganfyddiadau'r adolygiad o Orsafoedd Pleidleisio ac ar unrhyw newidiadau arfaethedig yn deillio o'r adolygiad. Dywedodd ei bod hi'n ddyletswydd i'r awdurdod, o dan adran 16 o Ddeddf Gweinyddu Etholiadau 2006, gynnal adolygiad o ardaloedd, mannau a gorsafoedd pleidleisio o fewn ei ardal ar bob pumed blwyddyn. Roedd rhybudd ynghylch yr adolygiad wedi'i gyhoeddi ar 7 Hydref 2019, gyda chais am sylwadau erbyn 8 Tachwedd 2019. Cafodd yr holl sylwadau a'r awgrymiadau a gafwyd erbyn y dyddiad hwn wedyn eu postio ar-lein, eu harddangos ar y Bwrdd Hysbysiadau Etholiadol, yn y Swyddfeydd Dinesig a'u hanfon at holl Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned fel bo modd derbyn unrhyw sylwadau pellach ar y cynigion a awgrymwyd erbyn 22 Tachwedd 2019.

Dywedodd y Prif Weithredwr mai amcan yr adolygiad oedd pennu ffiniau ar ardaloedd pleidleisio sy'n rhoi ystyriaeth i'r newid ym mhoblogaeth rhai ardaloedd (yn dilyn datblygiadau newydd) ac i sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn y lleoliad gorau ac mewn adeiladau addas sy'n cynnig mynediad da. Yn yr adolygiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod gan yr holl etholwyr ym mhob etholaeth Seneddol cyfleusterau rhesymol er mwyn pleidleisio ar sail yr hyn sy'n ymarferol yn yr amgylchiadau, a hyd y bo'n rhesymol ac yn ymarferol bod mannau pleidleisio yn hygyrch i bob etholwr, ac y rhoddwyd ystyriaeth i anghenion hygyrchedd unigolion anabl.

Adroddodd fod mwyafrif y sylwadau a gafwyd o blaid y trefniadau a'r lleoliadau a oedd yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Roedd hyn yn cynnwys ymateb gan Aelodau Etholedig a nifer o gynghorwyr Tref a Chymuned. Codwyd pryderon ynghylch trefniadau yn y dyfodol ym Mracla pan fydd wardiau newydd yn cael eu cyflwyno yn 2022. Roedd a wnelo hyn ag adolygiad y Comisiwn Ffiniau ac y tu hwnt i gylch gwaith yr adolygiad etholiadol mewnol.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngor yn nodi canlyniad yr adolygiad, ac yn enwedig y sylwadau a nodwyd yn atodiad yr adroddiad.

396. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL GAN:

Cwestiwn gan y Cynghorydd N Burnett i'r Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

A all yr Aelod Cabinet roi'r newyddion diweddaraf am ein Strategaeth Eiddo Gwag, a'r hyn y mae wedi'i gyflawni hyd yma?

Ymateb yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd, cafodd y Strategaeth Eiddo Gwag 2019-2023 ei chefnogi a'i chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2019. Gan na ddigwyddodd hyn ond pedair wythnos yn ôl, nid yw wedi cael digon o amser i fagu gwreiddiau. Mae'r strategaeth yn cadarnhau ein hymrwymiad i leihau'r malltod a achosir gan eiddo gwag ledled y fwrdeistref, ac isod rwyf wedi nodi rhai enghreifftiau o'r gwaith a gyflawnwyd:

1. Mae cyfres o lythyrau ymgysylltu/gorfodi cadarn wedi cael ei llunio a fydd yn golygu bod modd mabwysiadu dull wedi'i dargedu a graddol o ymdrin ag eiddo gwag.
2. Mae canllaw eiddo gwag wedi cael ei lunio sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor i berchnogion eiddo gwag i'w cynorthwyo i sicrhau bod eu heiddo yn cael ei ddefnyddio o'r newydd.
3. Mae system asesu risg wedi cael ei datblygu sy'n ein galluogi i dargedu eiddo sy'n cael effaith niweidiol ar yr ardal a rhai mewn ardaloedd lle ceir lefel uchel o anghenion tai. Mae hyn yn ein galluogi i fabwysiadu ymagwedd gyfun at ymdrin â'r broblem.
4. Mae cyfeiriad e-bost arbennig wedi cael ei greu sy'n hygyrch drwy ein gwefan, sy'n cynnig un man cyswllt ar gyfer ymholiadau/cwynion yn gysylltiedig ag eiddo gwag.
5. Mae cronfa ddata wedi cael ei chreu lle gellir cofnodi manylion yr holl gamau gorfodi/cwynion a'r cynnydd o ran defnyddio eiddo o'r newydd, gan olygu bod modd inni roi adroddiadau mwy manwl gywir ar y sefyllfa.
6. Mae'r gostyngiad i'r dreth gyngor yn gysylltiedig ag eiddo gwag wedi'i ddileu.
7. Mae cysylltiadau wedi'u sefydlu ag arwerthwyr er mwyn cynorthwyo perchnogion i werthu eu heiddo.
8. Mae Gweithdrefn Orfodi wedi cael ei lunio ar gyfer Gwerthu Gorfodol.

Fodd bynnag, cyn cymeradwyo'r strategaeth yn swyddogol, mae'r weinyddiaeth wedi bod yn gweithio'n unol â'r strategaeth ac wedi ymrwymo i benodi'r Swyddog Eiddo Gwag ym mis Hydref 2018.Cafwyd cynnydd sylweddol wrth fynd i'r afael â'r broblem Eiddo Gwag, ac ers penodi'r swyddog mae ymchwiliad wedi cael ei gynnal i gyfanswm o 219 eiddo. O'r 20 eiddo â blaenoriaeth a nodwyd drwy'r broses asesu risg, mae 12 eiddo wedi'u defnyddio o'r newydd. O ran yr 8 eiddo arall, mae 5 yn destun Hysbysiadau Adran 215 o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990,ac mae ffurflenni mynegi diddordeb wedi'u llunio ar gyfer 2 ohonynt yn gysylltiedig â grantiau/benthyciadau. Roedd yr eiddo arall ar ganol cael ei werthu, ond yn anffodus mae'r gwerthiant wedi methu felly bydd angen inni ymgysylltu ymhellach â pherchennog yr eiddo.Y Strategaeth yw cydweithio â pherchennog yr eiddo gwag, cyn mynd ar drywydd deddfwriaeth. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae perfformiad y Cyngor o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru wedi gwella o'r 18fed safle yn 2016-17 i'r 5ed yn 2018-19, ac yn gysylltiedig â hyn rydym wedi gweld y ffigur hwn yn codi dros ddwywaith yn uwch o 3.48% yn 2018 i 8.41% yn 2019.

Roedd y Cynghorydd Burnett yn falch o weld bod perfformiad y Cyngor, o'i gymharu â chynghorau eraill yng Nghymru, wedi codi o 5ed i 18fed o ran canran yr eiddo a oedd yn cael eu defnyddio o'r newydd, a gofynnodd gwestiwn yn gysylltiedig â hynny, sef sut y caiff yr eiddo dan sylw ei nodi. Dywedodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth y Cyngor fod eiddo yn derbyn sgôr ar sail dau brif ffactor, sef lleoliad ac angen. Rhoddir ystyriaeth hefyd i niwsans, cwynion a chyflwr yr adeilad.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor pa gamau oedd yn cael eu cymryd i ymdrin ag eiddo gwag yng nghymunedau'r cymoedd, a oedd wedi bod yn wag ers blynyddoedd. Soniodd yr Aelod Cabinet Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth y Cyngor am enghraifft o eiddo mewn cymuned yn y cymoedd a oedd wedi bod yn falltod ers 10 mlynedd. Dywedodd fod y Swyddog Eiddo Gwag wedi bod yn cydweithio ag Adran Iechyd yr Amgylchedd a'r perchennog er mwyn rhoi'r eiddo ar ocsiwn, a bod y perchennog newydd wedi gallu manteisio ar grantiau.

Gofynnodd aelod o'r Cyngor a oedd y Cyngor yn defnyddio pwerau gorfodi i ymdrin ag eiddo gwag. Dywedodd yr Aelod Cabinet Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol y gallai'r Cyngor ddefnyddio amryw o bwerau, a bod Hysbysiadau Adran 215 wedi cael eu defnyddio i gael gwared ag ysbwriel a chlirio llwybrau.

Cwestiwn gan y Cynghorydd A Hussain i'r Aelod Cabinet Cymunedau

A allai'r Aelod Cabinet roi gwybod a ydym yn newid ein hen Gyfreithiau Cynllunio er mwyn cefnogi'r amgylchedd, drwy leihau gwastraff, ac a yw ein Cyngor wedi ymrwymo i dai a pholisi cynllunio ecogyfeillgar?

Ymateb yr Aelod Cabinet Cymunedau

Mae'r system gynllunio yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli i Lywodraeth Cymru, ond fe'i gweithredir i raddau helaeth drwy lywodraeth leol, felly mae'r Cyngor hefyd yn Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl). Mae llu o ddogfennau deddfwriaethol yn sail i gyfraith cynllunio ac mae hyn yn creu'r fframwaith cyfreithiol statudol cenedlaethol ar gyfer gweithredu'r system cynllunio defnydd tir. Ar y llaw arall, mae polisi cynllunio, a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd yn rhoi'r arweiniad a'r cyfarwyddyd angenrheidiol er mwyn gwneud penderfyniadau cynllunio defnydd tir ar raddfa Cymru ac ar raddfa leol. Mae Polisi Cynllunio Cymru - Argraffiad 10 (PCC10), a gyhoeddwyd yn 2018, ynghyd â'r Nodiadau Cyngor Technegol (TANs) yn sefydlu'r prif gyd-destun cyffredinol ar gyfer polisi cynllunio, ac mae ACLlau yn creu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLlau) a Chanllawiau Cynllunio Atodol (CCAau) ar gyfer eu hardaloedd perthynol. Mewn cyfraith cynllunio, rhoddir y flaenoriaeth i'r cynllun datblygu onid yw'r polisi cenedlaethol yn drech

na'r cynllun. Mae'r CDLl yn trosi amcanion llesiant a blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor yn bolisïau a strategaethau clir ar gyfer cynllunio defnydd tir.

Mae PCC10 wedi alinio polisi cynllunio cenedlaethol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'n cynnwys nodau penodol yn gysylltiedig â gwastraff, o ran darparu cyfleusterau ac o ran lleihau gwastraff wrth ddatblygu yn y dyfodol. Y mae hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i ddatblygiadau newydd fod yn fwy cynaliadwy, gyda ffocws ar ddefnydd effeithlon o ynni a defnydd doethach o adnoddau. Mae'n rhaid ir CDLl newydd Pen-y-bont ar Ogwr gydymffurfio â PCC10, ac mae hyn yn gyfle pellach i saernïo polisïau a CCAau i adlewyrchu polisi cenedlaethol a sicrhau canlyniadau datblygu cynaliadwy. Ar ben hynny, gall Pen-y-bont ar Ogwr ymfalchïo yn y ffaith bod ei gyfradd ailgylchu gwastraff yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dylid nodi hefyd fod y Rheoliadau Adeiladu hefyd yn swyddogaeth sydd wedi'i datganoli. Ystyrir y Rheoliadau fel y prif ffordd o sicrhau bod adeiladau newydd yn gwneud defnydd mor effeithlon ag sy'n bosibl o ynni, a bydd newidiadau arfaethedig i Ran L y rheoliadau yn codi'r safonau angenrheidiol eto er mwyn creu datblygiadau mwy ecogyfeillgar.

Yn ogystal â hyn, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn arwain y blaen o ran dulliau doeth o ddarparu ynni, gan gynnwys cynigion am gynlluniau gwresogi ardal a Dŵr o Chwarel Caerau.

Wrth ofyn cwestiwn atodol i'r Aelod Cabinet, gofynnodd y Cynghorydd Hussain am sicrwydd bod y polisi cynllunio yn cael ei newid yn sylweddol er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, oherwydd credai nad oedd hynny wedi digwydd yn achos datblygiad Hillside ym Mhenyfai, lle gwelwyd llifogydd rheolaidd. Cyfeiriodd yr Aelod Cabinet Cymunedau'r cynllun dŵr chwarel i sylw'r Aelod, a dywedodd fod nifer o brosiectau eraill yn cael eu cynnal yn seiliedig ar dechnoleg ddatblygol. Dywedodd fod gan y Cyngor strategaeth i leihau allyriadau carbon yn yr ardal leol, a'i fod ymhlith ond ychydig o gynghorau yng Nghymru a'r DU i fod wedi llunio strategaeth o'r fath.

Dywedodd aelod o'r Cyngor fod datblygwyr yn cadw at ddeddfau cynllunio, a holodd a oedd y Cyngor yn annog datblygwyr i fodloni dyheadau datgarboneiddio'r Cyngor. Hysbysodd yr Aelod Cabinet Cymunedau y Cyngor am fwriad Llywodraeth Cymru i ddefnyddio ynni glân i bweru Cymru. Roedd gan y Llywodraeth hefyd gyllideb ar gyfer eiddo digarbon, ac roedd yr Aelod yn gobeithio y byddai hynny'n gatalydd i newid deddfwriaeth.

Holodd aelod y Cyngor ar ba safle yr oedd y Cyngor yng Nghymru o ran eiddo carbon isel. Hysbysodd yr Aelod Cabinet Cymunedau y Cyngor fod y strategaeth ardal leol wedi galluogi'r Cyngor i feithrin arbenigedd a gweithio gyda phartneriaid posibl.

397. <u>EITEMAU BRYS</u>

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:47